


Mwy o gyfleoedd i fforio Llwybrau Milltiroedd Cymunedol

More opportunities to explore Community Miles Routes



Teithiau Cerdded Gwledig yn Sir Ddinbych – arweinyfr cerdded ardderchog am ddim. Rural Walks in Denbighshire – a great free walking guide.



Lawrlwythwch y taflenni hyn a mwy oddi ar: Download these leaflets and more from: www.clwydianrangeanddevalleyaonb.org.uk www.denbighshirecountryside.org.uk

Fe ddangoswyd bod mynd am dro'n rheolaidd yn gwella hunanhyder a stamina ac yn lleihau pryder a straen. Rhowch gynnig ar un o'n troeon iach rheolaidd – ewch i www.denbighshirecountryside.org.uk/dewch_i_gerdded/ i gael mwy o wybodaeth.

Regular walks have been shown to improve self confidence, stamina, weight control and to reduce anxiety and stress. Why not try one of our regular healthy walks – please visit www.denbighshirecountryside.org.uk/lets_walk/ for more information.

Llosgi calorïau wrth cerdded 30 munud y filltir neu'n gyflymach
Calorie count for the walk at a walking rate of 30 minutes a mile or faster


Pwysau/Weight Stôn/Stones	Pwysau/Weight kg	Llosgi Calorïau Calories Burnt
10	63	318
11	70	350
12	76	380
13	83	414

Mae Rhaglen Ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

The Rights of Way Improvement Plan Funding Programme is funded by the Welsh Government and administered by Natural Resources Wales.



Taith gylchol 2.5 milltir o hyd yng nhefn gwlad hardd ardal Llandrillo
A 2.5 mile circular walk in the beautiful countryside around Llandrillo



Walk Ceidiog Llywyr

8

Cysylltiadau Defnyddiol Useful Contacts

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Denbighshire Countryside Service
01352 810 614

www.cefngwladsirddinbych.org.uk
www.denbighshirecountryside.org.uk

Canolfan Groeso Llangollen
Llangollen Tourist Information Centre
01978 860 828



This leaflet is printed on recycled paper.



This leaflet is printed on recycled paper.

Taith odidog o **Llandrillo** ar draws ffermdir, coetir, llwybrau glan yr afon a chyfle i weld golygfeydd gwych ar hyd **dyffryn Ceidiog**.

A stunning walk from **Llandrillo** incorporating farmland, woodland, riverside paths and breathtaking views up and down the **Ceidiog valley**.



Pellter: 4km | 2.5 milltir
Brasamcan o amser: 2 awr
OS Map: Explorer 255 Llangollen & Berwyn

Gwisgwch esgidiau cryfion cyfforddus ac ewch â dillad rhag glaw

Distance: 4km | 2.5 miles
Approximate duration: 2 hours
OS Map: Explorer 255 Llangollen & Berwyn

Wear stout comfortable footwear and take waterproofs

Côd Cefn Gwlad:

Parchwch – Gwarchodwch – Mwynhewch

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Gofalwch eich bod chi'n gwarchod planhigion ac anifeiliaid, ac ewch â'ch sbwriel gartref
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill



Countryside Code

Respect – Protect – Enjoy

- Be Safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them
- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people

Rhai o'r symbolau y gallech eu gweld yng nhefn gwlad



Some of the symbols that you may see in the countryside

Beth am aros am luniaeth ysgafn? Why not stop for refreshment?

Cynhelir **bore coffi** yn yr eglwys bob bore Sadwrn rhwng 10 o'r gloch y bore a hanner dydd, o fis Mawrth i fis Hydref

A **coffee morning** is held in St Trillo's church every Saturday morning from 10am to 12pm between March and October

Dudley Arms - **01490 440 223**
Tyddyn Llan - **01490 440 264**
Berwyn Restaurant - **01490 440 550**

Ewch ar y bws | Take the bus:

Gwasanaeth bws bob dwy awr
Running every other hour

- X94 (Wrexham-Llangollen-Abermaw)
- X94 (Wrexham-Llangollen-Barmouth)

I gael amserlen ddiweddar, gwiriwch To get an up to date timetable visit

www.traveline-cymru.info

Er y gwnaethpwyd pob ymdrech i wneud y llyfr hwn mor fanwl gywir ag sydd bosib, nid yw'r awduron na'r cyhoeddwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau gwallau.

Whilst every effort has been made to make this booklet as accurate as possible, neither authors nor publishers accept any responsibility for the consequence of errors.





Y bont dros yr Afon Ceidiog

Saif Llandrillo ar lannau'r Afon Ceidiog sy'n llifo i'r Afon Dyfrdwy. 1.5 cilometr i'r dwyrain, mae'r afon yn rhannu'r pentref yn ddau, ac mae pont garreg draddodiadol sy'n dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif, tua 1748 o bosib, yn croesi'r afon.

Mae'r bont yn strwythur rhestredig ynghyd â'r ciosg ffôn k6 a restrwyd yn 1990 gan ei fod cydweddu'n well â'r hen dai yn y stryd na'r ciosg BT newydd arfaethedig.

The bridge over Ceidiog River

Llandrillo lies on the banks of the river Ceidiog, which flows into the Dee. 1.5km to the west, the river splits the village in two and is crossed by a traditional stone bridge, which dates back to the 18th century, possibly around 1748.

The bridge is a listed structure along with the k6 phone box which was listed in 1990, as it seemed more in keeping with the old houses in the street than the proposed new BT kiosks.




Yr eglwys ganoloesol a'r ywen hynafol drawiadol

Mae'n bosibl bod eglwys Sant Trillo yn deillio o gyfnod cynnar iawn. Mae rhai olion o fynwent ffurf cylch sy'n awgrymu bod y safle yn deillio o'r bumed neu'r chweched ganrif Oed Crist. Cafodd yr eglwys gothig bresennol ei hailadeiladu yn 1776, 1852 a 1887. Mae'r adeilad yn cynnwys bedyddfaen yn dyddio o'r bymthegfed ganrif. Mae ywen hynafol yn tyfu yn y fynwent, un o'r hynaf yng Nghymru o bosib. Awgrymir fod Sant Trillo wedi cysgu dan ei chysgod pan gyrhaeddodd yn Llandrillo. Byddai hynny'n gwneud y goeden yn 1500 mlwydd oed o leiaf, sy'n awgrymu bod mangre sanctaidd yn bodoli yma ers amser maith.



The medieval church complete with impressive ancient yew tree

St Trillo's Church may have early origins. There are hints of a circular churchyard, which indicate that the church site has origins in the 5th or 6th century AD. The present gothic church was rebuilt in 1776, 1852 and 1887. The building contains a font dating to the 15th century and the churchyard has an ancient yew tree growing in it, possibly one of the oldest in Wales. It is supposed that "St.Trillo would certainly have slept beneath it when he arrived in Llandrillo". That would make the tree at least 1500 years, and suggests a Holy Place existed here long ago.



Rhan o fapTM mileniwm sydd a hawlfraint i Getmapping Plc
This is an extract of the millennium mapTM which is copyright Getmapping Plc
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023408
© Crown copyright and database rights 2013 Ordnance Survey 100023408



Cefn Penagored (Nyrs Gron)

Wrth edrych tua'r gorwel tra'n cerdded i'r de, gallwch weld glwstwr o goed pinwydd yn sefyll ar eu pennau eu hunain ar lethrau Cefn Penagored. Tybir eu bod wedi eu plannu er coffa am Frwydr Waterloo yn 1815. Arweiniodd y frwydr hon rhwng Prydain a'i chynghreiriaid yn erbyn Ffrainc at Ddug Wellington yn trechu Napoleon, Ymerawdwr Ffrainc, gan ddod â Rhyfel Napoleon i ben.

Cefn Penagored (Nyrs Gron)

Looking to the horizon when walking south, you can see a small stand of pine trees standing alone on the slopes of Cefn Penagored. This stand was said to have been planted to commemorate the Battle of Waterloo in 1815. The battle between Britain and its allies against the French Grand Army resulted in the defeat of the French Emperor Napoleon by the Duke of Wellington, and brought an end to the Napoleonic War.

Roswell Cymru

Cafwyd adroddiadau am wrthrych dieithr yn hedfan yn yr awyr uwchben Mynydd y Berwyn ar 23 Ionawr 1974, yn union uwchben y dyffryn hwn. Gwelwyd goleuadau a bu dirgryniad. Daeth swyddogion i'r ardal yn ddiymdroi wrth i bobl oedd yn byw yn ac o gwmpas y pentref geisio gwneud synnwy'r o'r hyn oedd wedi digwydd. Roedd rhai yn dweud eu bod wedi gweld llong ofod siâp wy â goleuadau coch ac oren. Ni allai hofrenyddion yr heddlu ddod o hyd i unrhyw beth, ac roedd rhai'n tybio mai gweithgaredd paranormal oedd yn gyfrifol! Yr esboniad swyddogol oedd y cafwyd daeargryn a goleuadau daeargryn.

Welsh Roswell

On January 23rd 1974 UFO activity was reported on the Berwyn Mountain just above the Ceidiog Valley. The incident was triggered by sightings of lights in the sky and a tremor. Officials quickly descended on the area as people living in and around the village tried to make sense of what had happened. Some say they saw an egg shaped craft with a pulsating orange and red glow. Police helicopters could not find anything, and it has since been speculated that paranormal activity might have been the cause! The official explanation was an earthquake.